**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG**
**LLWYBR YR A4050, PORT ROAD (RHAN), GWENFÔ – GORCHYMYN ARFAETHEDIG AR LÔN FYSUS, A LLWYBR YR A4055, HEOL CAERDYDD (RHAN), LLANDOCHAU – DIWYGIO'R GORCHYMYN LÔN FYSUS PRESENNOL 2026**

1. Ar 15 Ebrill 2026 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a’r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn fel y nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ym mis 20 Ebrill 2026 neu ar y dyddiadau y gosodir yr arwyddion a'r marciau ffordd, pa un bynnag yw'r diweddaraf, ac yn cael ei adnabod fel Gorchymyn "Cyngor Bro Morgannwg - Llwybr yr A4050, Port Road (Rhan), Gwenfô – Gorchymyn Arfaethedig ar Lôn Fysus, a Llwybr yr A4055, Heol Caerdydd (Rhan), Llandochau – Diwygio'r Gorchymyn Lôn Fysus Presennol” 2026
3. Gellir archwilio copi o’r Hysbysiad a’r cynlluniau sy’n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw’n unol â’r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â’r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 20 Ebrill 2026, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwn.

**ATODLEN 1**

**Llwybr yr A4050, Port Road (rhan), Gwenfô**

Ar ochr y gogledd-orllewin, o bwynt 187 metr i'r de-orllewin o ganol y gyffordd â'r A4231, cylchfan Ffordd Gyswllt Dociau’r Barri, i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol, am bellter o oddeutu 360 metr.
Ar ochr y gorllewin o bwynt 53 metr tua’r gogledd o ganol y gyffordd â Nant Isaf, i gyfeiriad y gogledd am bellter o oddeutu 449 metr.
Ar ochr y gorllewin o bwynt 25 metr i'r gogledd o ganol y gyffordd â chylchfan Quarry Road, i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol am bellter o oddeutu 527 metr.
Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd â St Lythans Road, i gyfeiriad y gogledd am oddeutu 157 metr.

(Bydd Bysus, Beiciau Modur a Thacsis wedi'u heithrio o'r Gorchymyn).

**ATODLEN 2**

**Llwybr yr A4055, Heol Caerdydd (rhan), Llandochau**

**Diwygio paragraff 2.1 o'r cyfyngiadau, yn Rhan II o'r Gorchymyn Traffig canlynol (a restrir fel Gorchymyn 891):**

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (HEOL CAERDYDD, DINAS POWYS) (TROEDFFORDD / LÔN FEICIO GYFUNOL A LÔN FYSUS) 2008**

I ddarllen:

Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd ac eithrio bws, beic modur neu dacsi i fynd ar hyd y Lôn Fysus gyda’r llif ar unrhyw adeg, fel y disgrifir yn Atodlen 1 isod.

Dyddiedig 16 Ebrill 2026.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo’r Alpau, Gwenfô CF5 6AA